# Gweithdrefn Moeseg Ymchwil ar gyfer gwaith a wneir gydag Anifeiliaid

## Cyflwyniad

Dan Bolisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol, mae'n rhaid i unrhyw ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam, sy'n cynnwys anifeiliaid neu eu meinweoedd, gael cymeradwyaeth foesegol cyn dechrau arni. Mae Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 (ASPA) yn rheoli unrhyw arbrofion neu weithdrefn wyddonol yn ymwneud ag anifail gwarchodedig a all gael effaith sy'n cynnwys achosi poen, dioddefaint, gofid neu niwed tymor hir i'r anifail. Mae angen tair trwydded gan yr ASPA cyn y gellir dechrau unrhyw waith gydag anifeiliaid a reoleiddir dan y ddeddf, ac mae'n rhaid cael Corff Sefydliadol Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (AWREB) ar waith; Isod, gweler y tair trwydded gan y Swyddfa Gartref sydd eu hangen:

- trwydded bersonol ar gyfer pob unigolyn sy'n cwblhau triniaethau ar anifeiliaid
- trwydded prosiect ar gyfer y rhaglen waith
- trwydded sefydliad ar gyfer y lleoliad lle mae'r gwaith yn cael ei gwblhau

Mae'n drosedd, dan ASPA, i wneud gweithdrefnau rheoledig ar anifail gwarchodedig oni bai yr awdurdodir hynny gan drwydded bersonol, trwydded prosiect a thrwydded sefydliad.

Nid oes gan Brifysgol Wrecsam  drwydded sefydliad nag AWERB ar waith; mae'r rhan fwyaf o ymchwil ar anifeiliaid, sy'n cael ei wneud gan ein hymchwilwyr a'n myfyrwyr, yn cynnwys gorchwylio anifeiliaid yn eu cynefinoedd naturiol. Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud a'r broses gymeradwyo foesegol a'r egwyddorion ymchwil ar gyfer ymchwil a wneir gydag Anifeiliaid, nad ydynt wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth y Swyddfa Gartref.

## Diffiniad

Diffinnir anifeiliaid gwarchodedig, dan ASPA, fel fertebriaid byw, ac eithrio bodau dynol ac unrhyw seffalopod byw. Mae pysgod ac amffibia yn cael eu diogelu ar ôl datblygu'r gallu i fwydo'n annibynnol, ac mae seffalopodau yn cael eu diogelu o'r eiliad maen nhw'n deor. Mae mamaliaid, adar ac ymlusgiaid yn eu ffurfiau embryonig a ffetysol wedi'u diogelu yn ystod traean olaf eu cyfnod beichiogrwydd neu ddeor.

## Proses Adolygu

Mae'n rhaid cyflwyno'r holl geisiadau ar gyfer cymeradwyaeth moeseg ymchwil drwy System Moeseg Ymchwil  Wrecsam.

## Cwmpas

Mae Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol a'r weithdrefn hon yr un mor berthnasol i brosiectau a wneir gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol, mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys gwaith ar y cyd gyda sefydliadau trydydd parti. Mae angen cymeradwyaeth moeseg ymchwil ar gyfer unrhyw ymchwil newydd sy'n cynnwys:

- Unrhyw ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid, sy'n cael ei wneud y tu allan i'r DU
- Unrhyw ymchwil sy'n cynnwys meinwe anifeiliaid
- Unrhyw fertebriaid neu seffalopod yn y DU sydd dan y trothwy gofynnol ar gyfer gwaith trwyddedig (h.y. astudiaethau arsylwadol)

## Egwyddorion

Mae Prifysgol Wrecsam  wedi ymrwymo i egwyddorion NC3Rs yn ei holl ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid.

### Disodli

Osgoi defnyddio anifeiliaid, neu ddefnyddio rhywbeth arall - cyflymu'r datblygiad a'r defnydd o fodelau ac offer rhagfynegol a chadarn, yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r technolegau diweddaraf, i fynd i'r afael â chwestiynau gwyddonol pwysig heb orfod defnyddio anifeiliaid.

### Lleihau

Lleihau nifer yr anifeiliaid a ddefnyddir - arbrofion ar anifeiliaid, sydd wedi'u dylunio a'u dadansoddi'n briodol, sy'n gadarn, sy'n hawdd eu hail-gynhyrchu ac sydd wir yn ychwanegu rhywbeth at y sylfaen wybodaeth.

### Coethi

Lleihau'r boen, y gofid neu'r niwed tymor hir ar anifeiliaid - datblygu ymchwil ar lesiant anifeiliaid drwy ddefnyddio'r technolegau vivo diweddaraf a gwella dealltwriaeth o effaith llesiant ar ganlyniadau gwyddonol.

## Manylion Cyswllt

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn hon at y Swyddfa Ymchwil - rescadmin@glyndwr.ac.uk